**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru@seneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

20 Mai 2024

Annwyl Lywydd,

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Byddwch yn ymwybodol, ddydd Gwener 17 Mai 2024, i Gadeirydd etholedig y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sarah Murphy AS, gael ei phenodi yn un o Weinidogion Cymru. Yn dilyn ei phenodiad, mae Sarah wedi esgusodi ei hun o fusnes y Pwyllgor. O ystyried yr amgylchiadau hyn, rydym yn ysgrifennu atoch fel y tri aelod parhaol o'r Pwyllgor sy'n weddill.

Yn ein cyfarfod a drefnwyd ar gyfer heddiw, yn ogystal â'r busnes pwysig sy'n ymddangos yn rheolaidd ar ein hagendâu, roeddem i fod i ystyried dau fater o bwys: ein hadroddiad drafft ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), a'r ymchwil a wnaed ar gyfer y Senedd a'i Phwyllgorau gan Dr Thomas Horsley ar y goblygiadau i Gymru yn sgil *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*.

Roedd Samuel Kurtz AS wedi ymddiheuro ar gyfer y cyfarfod ymlaen llaw, ac roedd dirprwy aelod o'r Ceidwadwyr Cymreig i fod i ddod i'r cyfarfod cyfan. Efallai eich bod yn ymwybodol bod Adam Price AS wedi esgusodi ei hun rhag cymryd rhan yn ein hystyriaeth o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol). O'r herwydd, roedd Luke Fletcher AS i fod i ddod i'r cyfarfod er mwyn i ni ystyried ein hadroddiad drafft ar y Bil gan ei fod wedi cymryd rhan yn y gwaith o gasglu tystiolaeth. Cafodd penodiad Sarah Murphy fel Gweinidog Cymreig hefyd effaith ar drefniadau'r cyfarfod, er bod y Grŵp Llafur wedi trefnu rhywun yn ei lle.

O dan yr amgylchiadau hyn ac o ystyried y materion i'w hystyried yn y cyfarfod, ymgynghorodd clerc y pwyllgor â holl aelodau'r pwyllgor ddydd Gwener a chytunwyd ar y cyd i ganslo'r cyfarfod, gyda'r bwriad o ystyried yr wythnos hon a ddylid aildrefnu cyfarfod i drafod ein hadroddiad drafft ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (o ystyried y dyddiad cau presennol ar gyfer cyflwyno

adroddiadau, sef 7 Mehefin 2024) ac unrhyw waith arall, yn enwedig os yw'n hollbwysig o ran amser hefyd.

Os yn bosibl, hoffem felly fod mewn sefyllfa i gynnal cyfarfod dydd Iau neu ddydd Gwener yma i ystyried ein hadroddiad drafft. Byddai cynnal cyfarfod ar ddiwedd yr wythnos yn galluogi Cadeirydd newydd y Pwyllgor, pe bai'n cael ei ethol yn ffurfiol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth neu ddydd Mercher, i fod yn bresennol. Ar hyn o bryd, ni fyddai unrhyw wrthdaro rhwng yr aelodaeth â chyfarfodydd eraill sydd i'w cynnal ddydd Iau, a'r bwriad yw cynnal y cyfarfod ar ffurf cwbl rithwir. Rydym yn cydnabod y gall fod rhai problemau ymarferol gyda chyhoeddi papurau cyfarfod ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, o ystyried yr amgylchiadau, rydym o'r farn y byddai cael y papurau yn hwyr yn rhesymol. Gobeithiwn y byddwch yn edrych yn ffafriol ar ein cais am slot cyfarfod ychwanegol.

Os na fyddwn yn gallu aildrefnu cyfarfod yr wythnos hon, bydd hynny'n golygu mai dim ond un cyfle a fydd gennym i ystyried ein hadroddiad drafft ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn ein cyfarfod ddydd Llun 3 Mehefin 2024, cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar 7 Mehefin 2024. Rydym yn llwyr werthfawrogi natur sensitif amser y dyddiad cau ar gyfer adrodd o fewn amserlen gyffredinol arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y ddeddfwriaeth. Er mwyn ein galluogi i roi'r ystyriaeth ofalus sydd ei hangen ar ein hadroddiad, byddem yn ddiolchgar pe gellid ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd i ddydd Mawrth 11 Mehefin 2024 i'n galluogi i gytuno ar yr adroddiad yn ein cyfarfod ddydd Llun 10 Mehefin. Os cytunir ar yr estyniad, byddem hefyd yn croesawu'r hyblygrwydd i gyfarfod ar fore 10 Mehefin. Nid ydym yn credu y byddai estyniad i 11 Mehefin yn effeithio ar fwriadau Llywodraeth Cymru o ran dadl egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1.

Deallwn ei bod yn debygol y bydd Sarah wedi cyflwyno ei hymddiswyddiad fel Cadeirydd y Pwyllgor cyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried y llythyr hwn. Serch hynny, anfonir copi o'r llythyr at Sarah er gwybodaeth.

Yn gywir,

| | | |
|---|---|---|
| Alun Davies AS | Samuel Kurtz AS | Adam Price AS |